# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cofnodion (HSS(2)-06-05)

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 4 Mai 2005
Amser y cyfarfod: 9.00am tan 11.15am
Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Phil Chick | Y Gyfarwyddiaeth Polisi Iechyd Cymunedol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Iechyd |
| Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |

| | |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru |
| Phil Morgan | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Daeth ymddiheuriadau i law gan Jonathan Morgan, Lynne Neagle a Kirsty Williams. Roedd William Graham, Huw Lewis ac Eleanor Burnham yn dirprwyo ar eu rhan.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1.3 Ceir cofnod gair-am-air o'r cyfarfod.

## Eitem 2: Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2005 (9.05 tan 9.10am)

Papur: HSS(2)-06-05(p.1)

2.1 Yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2004, penderfynodd y Pwyllgor ei fod am graffu yn fanwl ar y rheoliadau hyn. Cafodd y rheoliadau drafft eu hystyried yn unol â'r protocol y cytunodd y Pwyllgor arno ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau i'w hegluro ac ni chynigiwyd unrhyw welliannau.

2.2 Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Camau i'w cymryd

- Y Cadeirydd i anfon adroddiad y Pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddarparu gwybodaeth am allu'r labordai i brofi a monitro lliwiau mewn bwyd.

## Eitem 3: Adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl - Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr

Papur: HSS(2)-06-05(p.2)

3.1 Bu'r Pwyllgor yn pwyso a mesur y dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd.

Camau i'w cymryd

- Clerc y Pwyllgor i baratoi drafft cyntaf adroddiad y Pwyllgor.

## Eitem 4: Cofnodion

Papurau: HSS(2)-04-05(min) a HSS(2)-05-05(min)

4.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2005.

4.2 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2005.